# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mai 12fed 2026 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Rhys Richards (cadeirydd), Huw Charles, Gwynfryn Williams, Rhys Jones, Arwel Davies, Euros Puw, Cyng.Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Geraint Jones a Geraint Thomas.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb i'r cwynion a anfonwyd i Gyngor Gwynedd.
i) Cafwyd addewid y byddai'r swyddog yn cadw golwg ac yn trefnu i docio unrhyw ordyfiant o gwmpas yr arwyddion ffordd os bydd angen.
ii) Roedd y gweithlu wedi torri'r coed llarwydd ger Nant Ddu, Arenig.

b) Byrst ger gwaith trin dŵr, Arenig.
Yn dilyn byrst arall yn ddiweddar roedd Dŵr Cymru wedi cau'r ffordd a gan nad oedd y gwasanaeth tan wedi cael ei hysbysu o hyn, bu rhaid i'r criw droi'n nôl a chymryd llwybr arall i gyrraedd tan ar fynydd y Nodol. Derbyniwyd copi o'r llythyr anfonwyd i Ddŵr Cymru gan y cynghorydd sir, Alan Jones yn datgan pryderon y gymuned i'r sefyllfa ac yn gofyn unwaith eto am well drefniadau pan fyddant angen gwneud unrhyw waith ar rwydwaith yr ardal.

c) Gwynedd Ni – Cronfa Cefnogi Cynghorau Cymuned a Thref.
Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i geisio am arian i wella mynediad mynwent Talybont a phrynnu cyrtens llwyfan newydd i Neuadd Parc. Gofynnwyd i'r clerc gael prisiau erbyn cyfarfod mis Mehefin.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.
i) Cyfarfod Fforwm Adfywio Y Bala a Phenllyn – Ebrill 29ain.

b) Amrywiol.
i) Heddlu Gogledd Cymru – cyfarfod gyda chynghorau cymuned a thref, Ebrill 30ain. Cafwyd adroddiad gan Rhys Richards o'r hyn a drafodwyd.
ii) Llywodraeth Cymru - Cynllun Gweithredu Adfer Natur newydd.
iii) Parc Cenedlaethol – Cronfeydd Cymunedol Eryri.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**
Ni chyflwynwyd unrhyw gais cynllunio.

**vi) Materion Ariannol**
a) Derbyniadau.
Derbyniwyd rhandal cyntaf o'r Praesept.

b) Taliadau.
Cytunwyd i dalu Zurich (yswiriant).



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….

**<u>vii) Unrhyw Fater Arall.</u>**

<u>a) Problemau biniau Glan Llafar, Parc.</u>
Derbyniwyd copi o'r llythyr anfonwyd i Gyngor Gwynedd gan y cynghorydd sir, Alan Jones yn dilyn anghydfod ynglŷn â lleoliad storio'r binniau. Mi roedd lleoliad newydd wedi cael ei greu gyferbyn a'r tai ac roedd swyddog ail-gylchu Cyngor Gwynedd am fonitro'r sefyllfa a chamu i mewn os bydd unrhyw brydero pellach.

<u>b) Neges i longyfarch Rhun ap Iorwerth.</u>
Cytunwyd i yrru neges yn llongyfarch Rhun ap Iorwerth ar lwyddiant y Blaid yn yr etholiadau diweddar ac am gael ei ethol yn Brif Weinidog.

<u>c) Gofynnwyd i'r clerc basio'r materion canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd:-</u>
i) Grid ger y Nodol angen ei drwsio.
ii) Ffos ger cyffordd Groeslon i gyfeiriad angen sylw.

## Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mehefin 9fed am 8.00 y.h. yn Neuadd Maesywaen.


Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….